**<u>Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin</u>**

**<u>Cofnodion Cyfarfod</u>**

**<u>Dydd Mawrth 5 Mawrth 2024</u>**

**<u>Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Tre Ioan - 4pm</u>**

**Yn Bresennol:** **<u>Yr Aelodau:</u>**

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd
y Fforwm Mynediad Lleol
Richard Leggett (RL)
Phil Snaith (PS)
Sean Brown (SB)
Jillie Gardner (JG)
Mo Rapley (MO)
David Gravelle (DG)

**<u>Ysgrifennydd</u>** – Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin

**<u>Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd:</u>**

Cynghorydd Edward Thomas (ET) – Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith
Jason Lawday (JL) – Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad CSC
Alex Morgan (AM) – Swyddog Prosiect Mynediad i Gefn Gwlad CSC
Phillip Morgan (PM) - (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Julie Sweet (JS) – Grŵp Cerdded Cilmaenllwyd
Alan Richards (AR) – Grŵp Cerdded Pontarddulais
Christoff Fischer (ChF) – Maer Tref Llandeilo
Kate Glanville (KG) – Cyngor Tref Llandeilo a Nofwyr Afon Tywi
Tony Loizou – Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin

**Ymddiheuriadau:** **<u>Yr Aelodau:</u>**

Karen Burch (KB)
Wyn Owen (WO)
David Stacey (DS)
Peter Griffiths (PG)

Nodyn:
Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin ac mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae LlC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Llywodraeth Cymru

| EITEM | CAMAU GWEITHREDU |
|---|---|
| **<u>Eitem 1 - CROESO AC YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Croesawodd MH y fforwm.<br><br>Darllenodd MH / CF yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod i law.<br><br>Cyflwynodd MH yr arsylwyr / ymgynghorwyr. | |
| **<u>Eitem 2 DYNODIAD DYFROEDD YMDROCHI LLANDEILO</u>**<br><br>Cyflwynodd KG wybodaeth am gais i Lywodraeth Cymru gan Nofwyr Afon Tywi, ar gyfer Dynodiad Dyfroedd Ymdrochi (BWD) wrth y 'bont siglo' yn Llandeilo.<br><br>Mae BWD yn sicrhau bod dŵr yn lân ar gyfer y tymor ymdrochi (Mai i Fedi).<br><br>Cwrdd â meini prawf glendid cyfreithiol i gyflawni/cynnal y dynodiad – ar hyn o bryd mae gan safle'r bont siglo lefelau E-coli gormodol.<br><br>Cyflwynodd 'Surfers against sewerage' i Landeilo cyn yr ymgynghori i amlinellu'r BWD.<br><br>Cafwyd 500 o ymatebion gan y cyhoedd, un yn negyddol, yn ystod y cyfnod ymgynghori.<br><br>Nid oes gan y cais gefnogaeth y tirfeddiannwr na chefnogaeth CSC ar hyn o bryd.<br><br>Mae gan y tirfeddiannwr bryderon o ran atebolrwydd.<br>Mae'n debyg bod dynodi ac arwyddion cysylltiedig yn rhyddhau'r tirfeddiannwr o atebolrwydd, nid yw'n glir pwy fyddai'n atebol pe bai'r cais yn cael ei ddynodi'n llwyddiannus.<br><br>Nid yw'n glir pa un o adrannau CSC ddylai fod yn penderfynu a ddylid cefnogi. Cynigiodd y Cynghorydd Thomas gynorthwyo i wneud ymholiadau gyda Phenaethiaid Gwasanaeth i benderfynu ar hyn.<br><br>Mae Dŵr Cymru yn cefnogi'r cais, ac eisiau defnyddio'r achos fel enghraifft o waith cymunedol a helpu i lanhau'r afon.<br><br>Yn dilyn ymholiad PS, cadarnhaodd KG na fydd ffordd osgoi arfaethedig Llandeilo yn effeithio ar safle'r cais<br><br>Awgrymodd PM y dylai Llywodraeth Cymru fod yn eglur ynghylch atebolrwydd tirfeddianwyr a chefnogaeth gan yr awdurdod lleol priodol fel rhan o ganllawiau gwell.<br><br>Holodd MH beth mae'r grŵp ei eisiau gan y Fforwm Mynediad Lleol?<br><br>Dywedodd KG cefnogaeth a chymorth i gael cefnogaeth.<br><br>RL - Rôl y Fforwm Mynediad Lleol yw cynghori, mae'n hollbwysig gwybod pwy fydd yn arwain yn CSC er mwyn rhoi cyngor yn gywir. | **ET** |

| | |
|---|---|
| | |
| **<u>Eitem 3 – CYFARFOD Y PENNAETH GWASANAETH</u>**<br><br>Cynhaliwyd y cyfarfod 19/02/24 – Aeth MH a RL ar ran y Fforwm Mynediad Lleol<br><br>Agenda hir, ni roddwyd sylw i bopeth yn yr amser oedd ar gael ond trafodwyd y prif faterion. Trafodaeth gadarnhaol iawn ar y cyfan a chytunwyd ar nifer o gamau.<br><br>• Nodiadau cyngor y Fforwm yn y dyfodol i'w sianelu drwy'r Aelod Cabinet. Bydd y Cynghorydd Thomas yn dosbarthu i adrannau/is-adrannau perthnasol ac yn sicrhau y ceir ymatebion yn brydlon.<br>• I fod yn fwy strategol, llunnir rhaglen waith/trafodaeth flynyddol ar gyfer y Fforwm - cynnwys i'w gymryd o Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol.<br>• Cafwyd ymholiad i ba raddau roedd Awdurdodau eraill Cymru yn defnyddio gwirfoddolwyr, cytunwyd ei bod yn werth siarad â Chynghorau eraill, dosbarthodd MH ymgynghoriad drwy'r e-bost, 4 ymateb hyd yn hyn.<br>• Roedd ymgais i gael rhagor o hyblygrwydd o ran diwrnodau/amserau cyfarfodydd, yn ystod oriau swyddfa os oedd yn bosibl, i'w gwneud yn haws i swyddogion fynychu.<br>• Trafod cynnydd o ran Adolygiad ROWIP a Strategaeth Farchogaeth gyda CF a'r Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth i osod llinell amser o ran cyflawni.<br><br>RL - y prif beth o'r cyfarfod, eglurder am rôl y Fforwm Mynediad Lleol, cynghori CSC nid lobïo.<br><br>MH - y Fforwm cyfredol yn agosáu at ddiwedd y tymor 3 blynedd, wrth benodi cylch gorchwyl nesaf y Fforwm i'w ddiwygio er eglurder a'i roi i aelodau newydd i amlinellu'r rôl gynghori yn glir. | ET<br><br>MH<br><br>POB UN<br><br>CF |
| **<u>Eitem 4 – CYFLWYNIAD BYR I'R BROSES O GOFRESTRU HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS YN SIR GAERFYRDDIN</u>**<br><br>Rhoddodd JL gyflwyniad llafar i'r grŵp gyda delweddau ategol.<br><br>Rhoddwyd safbwynt hanesyddol o ran y broses o gofnodi Hawliau Tramwy Cyhoeddus a pham y rhoddwyd yr hawliau isaf i lawer ohonynt. Hefyd darparwyd y manylion a gedwir gan y tîm Mynediad i Gefn Gwlad, sydd ar gael i'r cyhoedd yn swyddfeydd Mynydd Mawr, a'r bwriad yw eu symud i archifau ar ôl eu digido.<br><br>Cymerwyd y cwestiynau canlynol yn dilyn y cyflwyniad. | |

| | |
|---|---|
| Dilyn i fyny trafodaeth grŵp ar hawliau na chofnodwyd yn llawn a'r arolwg rhwydwaith.<br><br>CF wedi diweddaru'r fforwm ar brosiect arolwg rhwydwaith (partneriaeth Cerddwyr Cymru), cofrestrodd 83 o wirfoddolwyr, datblygu meddalwedd i gefnogi prosiect yn y camau terfynol, hyfforddiant gyda swyddog prosiect yn y camau cynllunio ar gyfer diwedd Mawrth/Ebrill.<br><br>Cysylltu'r arolwg â chyflwyniad JL yn dilyn cyfarfod Pennaeth Gwasanaeth. Arweiniodd trafodaeth ar hawliau a dangofnodwyd at awgrym gan y Pennaeth Gwasanaeth i gynnwys asesiad hawliau uwch fel rhan o arolwg rhwydwaith.<br><br>Ystyriodd CF asesiad addasrwydd yn unig, ni all gwirfoddolwyr ystyried cyd-destun hanesyddol fel rhan o'r arolwg. Cytunwyd i newid cwmpas yr arolwg y cytunwyd arno, CF wedi gweithredu hyn gyda'r swyddog prosiect.<br><br>Grŵp yn diolch i JL am ei amser | |
| **<u>EITEM 5 – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH FARCHOGAETH A'R ADOLYGIAD O'R CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY</u>**<br><br>Mae CF wedi cael trafodaeth gyda'r Pennaeth Gwasanaeth newydd i adolygu pa gam y mae'r Adolygiad a'r Strategaeth Farchogaeth wedi cyrraedd.<br><br>***Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy***<br><br>Cynllun ar waith i ail-fformatio'r Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i wneud y ddogfen yn fwy hygyrch i'r darllenydd.<br><br>Adolygu'r data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd gan ymgynghorydd yn gywir a thrylwyr, dim ond i wneud gwybodaeth yn fwy cryno y mae angen gwneud newidiadau, gan wneud defnydd o atodiadau i wneud prif gorff yr adolygiad yn fwy cryno.<br><br>Y dyddiad targed ar gyfer cwblhau diwygiadau i'w cymeradwyo yw Mehefin 2024. Ymgynghorir â'r Fforwm Mynediad Lleol cyn y dyddiad targed i lywio'r fersiwn derfynol.<br><br>***Strategaeth Farchogaeth***<br><br>Mae cyfran sylweddol o'r strategaeth mewn fformat drafft. Yr adrannau sy'n weddill i'w cwblhau ac yn eu drafft terfynol erbyn mis Medi 2024.<br><br>Dylid ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol a phartïon eraill â diddordeb cyn y dyddiad targed i helpu i lywio'r fersiwn derfynol. | |

| | |
|---|---|
| **Eitem 6 – DIWEDDARIAD YNGHYLCH PROSIECTAU**<br><br>Darllenodd CF ddiweddariad ysgrifenedig ar brosiectau ar gyfer 2023-24, a gynhyrchwyd gan y Rheolwr Hamdden a Mynediad.<br><br>3 x prosiect a ariannwyd gan y Grant Gwella Mynediad (AIG) wedi'u cwblhau.<br>1 x prosiect a ariannwyd gan y Grant Gwella Mynediad yn parhau, ar fin cael ei gwblhau.<br>3 x atgyweiriadau pont mewn partneriaeth â thirfeddiannwr/tirfeddianwyr (cost a rennir)<br>5 x Pontydd troed wedi'u hatgyweirio/gwella<br>1 x Pont droed i'w hadnewyddu, gosod ym mis Mawrth 2024<br>4 x prosiectau Cynnal a Gwella cyffredinol Hawliau Tramwy Cyhoeddus<br>4 x Gorchymyn Addasu Mapiau Diffiniol (DMMO) i ymgynghorydd allanol, adroddiadau achos wedi'u dychwelwyd gydag argymhellion y gellir eu gweithredu<br>2 x DMMO i ymgynghorydd allanol, ymchwiliadau yn parhau.<br>Gwaith Cynnal a Gwella blynyddol ar Lwybr Arfordir Cymru wedi'i gwblhau.<br><br>Adroddiad cwblhau prosiectau manwl i'w lunio ar gyfer cyfarfod nesaf y Fforwm i ddarparu mwy o wybodaeth i'r aelodau am y gwaith a gwblhawyd.<br><br>Holodd JG beth oedd cynnydd 10 prosiect a awgrymwyd a gyflwynwyd gan y Fforwm yn 2023. CF i ddod o hyd i'r rhestr a gweithio gydag AM i ychwanegu awgrymiadau prosiect hyfyw i'r Flaenraglen Waith. | CF<br><br><br><br>CF / AM |
| **Eitem 7 - ADRODDIADAU AR FATERION**<br><br>Adroddiadau ar faterion wedi'u llunio a'u dosbarthu i aelodau cyn y cyfarfod.<br><br>Dim sylwadau gan aelodau | |
| **Eitem 8 – CAMAU GWEITHREDU SY'N CODI O GOFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**<br><br>**Cynnwys Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig (BOATs) yn yr Arolwg Rhwydwaith**<br><br>Ymholiad ynghylch cynnwys Cilffyrdd sy'n Agored i Unrhyw Draffig (BOATs) mewn arolwg rhwydwaith 100%.<br><br>Esboniodd CF bod BOATs yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gan Priffyrdd ac yn destun arolygiad rheolaidd ganddynt. O ystyried y data arolygu a ddelir eisoes, ni fydd BOATs yn cael eu cynnwys yn yr arolwg rhwydwaith.<br><br>Gellid cynnal prosiect arolygu penodol yn y dyfodol ar gyfer BOATs yn benodol os bernir bod angen.<br><br>**Gorchmynion Addasu Llwybrau Beicio** | |

| | |
|---|---|
| Cafwyd ymholiad ynghylch cymhwyso'r Gorchmynion Addasu Llwybrau Beicio yn y sir lle mae llwybrau cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ar gyfer beicio.<br><br>CF heb fod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cymhwyso'r Gorchmynion hyn gan y Tîm Trafnidiaeth, heb fod yn ymwybodol o newid sylweddol mewn polisi hyd yn hyn. Yn gwybod bod Gorchmynion Llwybr Beicio Dyffryn Tywi yn mynd rhagddynt, gellid darparu templed ar gyfer Gorchmynion y dyfodol.<br><br>**Polisi Codi Tâl ar y wefan**<br><br>Awgrymwyd gan aelodau'r fforwm y dylai'r Polisi Codi Tâl fod ar y wefan. Eitem gadarnhaol.<br><br>Roedd CF yn cytuno ei bod yn bwysig cynyddu ymwybyddiaeth o'r Polisi ymysg tirfeddianwyr. Bydd yn trefnu cyfieithu a fformatio corfforaethol fel gall y Polisi fynd ar-lein.<br><br>**Hyblygrwydd Cyfarfod**<br><br>Awgrymwyd pe bai modd i aelodau fod yn fwy hyblyg o ran dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd, mae'n bosibl byddai presenoldeb yn gwella.<br><br>**Gorchmynion Rheoleiddio Traffig**<br><br>Dywedodd MH ei fod yn aros am ragor o wybodaeth am Orchmynion Rheoleiddio Traffig cyfredol ar BOATs a Ffyrdd Diddosbarth, y gofynnwyd amdani yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd.<br><br>Bydd mynediad i'r wybodaeth yn caniatáu i ddefnyddwyr adolygu angen posibl, a chynnig atebion eraill fel gyrru unffordd.<br><br>**Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>Awgrymir y byddai'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned yn lle da i dynnu sylw at fodolaeth y Fforwm Mynediad Lleol a'r gwaith gwerthfawr mae'n ei wneud dros fynediad cyhoeddus yn y Sir.<br><br>Cytunodd y Grŵp y byddai mynychu'r fforwm i gyflwyno wyneb yn wyneb yn fwy effeithiol na chyfathrebu ysgrifenedig trwy e-bost.<br><br>Erbyn hyn bydd angen i hyn ddigwydd ar ôl yr etholiad. CF i drefnu ar adeg briodol ar ôl yr etholiad. | CF / AM<br><br>CF |
| **<u>EITEM 9 – UNRHYW FUSNES CYMWYS ARALL</u>**<br><br>**Llwybr Cerdded CNC 20km**<br><br>Dywedodd PM fod y gwaith o ddatblygu llwybr cerdded 20km yng Ngorllewin Brechfa wedi'i gwblhau. Bydd digwyddiad lansio cyn bo hir i agor y llwybr yn ffurfiol.<br><br>**Dolen Tîm Twristiaeth â CNC**<br><br>Dywedodd PM fod CNC wedi bod yn gweithio gyda Thîm Twristiaeth CSC yn ddiweddar i gael gwahanol safleoedd mynediad hamdden CNC ar Darganfod Sir Gâr.<br><br>Cytunodd y Fforwm fod hwn yn gam cadarnhaol, gan ddarparu ffordd hawdd i'r | |

cyhoedd ganfod yr holl wybodaeth am fynediad mewn un lle.

**Mynediad i chwareli cerrig CNC**

Eglurodd PM fod angen i'r posibilrwydd o ddefnyddio cerrig o chwareli CNC ar y safle ar gyfer atgyweirio a gwella Hawliau Tramwy (yn enwedig BOAT) gael ei asesu fesul achos.

Mae caniatâd i ddefnyddio cerrig ar Hawliau Tramwy yn gyfreithlon yn dibynnu ar y rheolau echdynnu mwynau ym mhob safle.

**Llwybr Dyffryn Tywi**

Cyflwynodd PS y diweddaraf ar Lwybr Dyffryn Tywi. Mae Gorchmynion Prynu Gorfodol yn aros i gael eu cymeradwyo, dylai hyn ddigwydd yn weddol fuan. Contractau ar gyfer gwaith yn barod i'w dyfarnu pan fydd y Gorchmynion Prynu Gorfodol wedi'u cwblhau.

Y dyddiad cau ar gyfer gwariant dynodedig yw Mawrth 2025.

**Prosiect Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cilmaenllwyd**

Rhoddodd JS y wybodaeth ddiweddaraf am brosiect Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cymuned Cilmaenllwyd. Ar stop ar hyn o bryd i ganiatáu ar gyfer ffenestr ymgynghori Gorchymyn llwybr cyhoeddus, hefyd angen gwneud rhywfaint o orfodi ffurfiol i ganiatáu cwblhau'r prosiect yn llawn.

Mae Cam 1 wedi'i gwblhau, dim ond lansiad meddal fydd hwn gan fod deunyddiau/peiriannau o hyd yng nghyffiniau'r llwybrau tra bo cam 2 yn mynd rhagddo.

Fe wnaeth RL argymell bod yr aelodau'n mynd i weld y prosiect, byddai'n daith bleserus ac yn esiampl o'r hyn gellir ei gyflawni gan Fenter Gymunedol.

**Cyngor Tref Cydweli**

Dywedodd SB wrth aelodau bod Cyngor Tref Cydweli wedi codi byrddau gwybodaeth ar y 'mynydd' ym Mynyddgarreg, Cydweli.

Mae'r byrddau yn darparu mapiau o ble mae'r BOATs yn croesi'r mynydd i hysbysu defnyddwyr a diogelu'r safle ecolegol sensitif rhag cael ei gamddefnyddio.

Ychwanegiad yr oedd i'w groesawu'n fawr, syniad da.

**Cofrestr Gorchymyn Addasu Map Diffiniol (DMMO)**

Holodd SB pa geisiadau DMMO sy'n mynd rhagddynt yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd.

Dywedodd CF fod pob cais DMMO ffurfiol yn cael ei gyhoeddi ar-lein a gellir eu gweld o fewn y system CAMSWeb.

Nid yw achosion DMMO anffurfiol wedi'u rhestru ond gall tîm Mynediad i Gefn Gwlad gynghori a gellir gweld ffeiliau yn Swyddfeydd Mynydd Mawr drwy apwyntiad.

**Ymgynghoriad Gorchymyn Llwybrau Cyhoeddus / DMMO gyda'r Fforwm**

| | |
|---|---|
| **Mynediad Lleol**<br><br>Gofynnodd MH am i ymgynghoriadau Gorchymyn Llwybr gael eu hanfon at aelodau'n unigol gan ei bod yn anodd iddo ef eu symud ymlaen.<br><br>Cytunodd CF ar y sail bod unrhyw ymatebion gan aelodau yn cael eu llunio fel un ymateb gan y Fforwm Mynediad Lleol. | |
| **Adroddiad Blynyddol y Fforwm**<br><br>Nid yw MH bellach yn gallu llunio adroddiad ar ran CSC.<br><br>Diolchodd CF i MH am y cymorth gyda'r Adroddiad Blynyddol hyd yma a chadarnhaodd y byddai'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad yn llunio'r adroddiad o hyn ymlaen. | CF |
| **Presenoldeb Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr yn y Fforwm Mynediad Lleol newydd**<br><br>Awgrymwyd y dylai Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr fynychu cyfarfod nesaf y Fforwm Mynediad Lleol o ystyried y trafodaethau parhaus ynghylch cysylltiadau rhwng mynediad a thwristiaeth.<br><br>Bydd CF yn anfon gwahoddiad penodol. | |
| **Ymateb Ymgynghoriad Ffermio gan y Fforwm Mynediad Lleol**<br><br>Mae Cadeirydd Cadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol wedi llunio ymateb Cenedlaethol i'r ymgynghoriad. Nid oes unrhyw aelodau wedi codi eitem benodol i'w chynnwys mewn ymateb, felly awgrym MH yw nad oes angen anfon ymateb penodol gan Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin.<br><br>Cytunodd y grŵp, gallai aelodau anfon ymatebion unigol o hyd. | |
| **Cyngor Sir Cernyw wedi cael ei erlyn am ddiffyg gweithredu ynghylch DMMO.**<br><br>Amlygodd dirprwy gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol achos diweddar yn erbyn Cyngor Sir Cernyw am fethu â phenderfynu ar gais DMMO.<br><br>Rhywbeth i fod yn ymwybodol ohono, darpariaethau statudol ar waith i gyflwyno achos yn erbyn awdurdodau lleol lle nad yw ceisiadau'n cael eu hystyried. | |
| **Aelodau newydd o'r Tîm Mynediad i Gefn Gwlad**<br><br>Soniodd CF wrth yr aelodau am dri aelod newydd o'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad – 2 Geidwad newydd a Swyddog Prosiect Mynediad i Gefn Gwlad.<br><br>Roedd y Swyddog Prosiect (AM) yn bresennol, cyflwynodd ei hun, ei gefndir a'i rôl newydd.<br><br>Awgrymwyd y gellid dod â phrosiectau oedd dan ystyriaeth i'r Fforwm Mynediad Lleol i gael eu sylwadau/cefnogaeth.<br><br>Cytunodd AC, hefyd pwysleisiodd fod gwahoddiad i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol wneud awgrymiadau am brosiectau. | |

| | |
|---|---|
| **Diwygio Mynediad**<br><br>Dywedodd CF fod y cynnydd ar Ddiwygio Mynediad yng Nghymru wedi'i amlinellu mewn cyfarfod diweddar Llywodraeth Cymru.  Bach iawn o gynnydd sydd wedi cael ei wneud yn ddiweddar ac ni ragwelir bydd y cynigion diwygio'n digwydd yn fuan.<br><br>**Cyllid AIG**<br><br>Dywedodd CF fod blwyddyn arall o gyllid AIG wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer 2025-26 mewn cyfarfod diweddar gan Lywodraeth Cymru.<br><br>**Diolch i JL am weithio fel ysgrifenydd dros dro i'r Fforwm Mynediad Lleol..** | |
| **<u>Eitem 10 - Y Cyfarfod Nesaf</u>**<br><br>Dydd Iau 6 Mehefin 2024 | |